



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Beth sydd angen i chi ei wybod am
bapur gwyn Llywodraeth Cymru ar roi
diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

Hydref 2023



Beth sydd angen i chi ei wybod am bapur gwyn Llywodraeth Cymru ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru



**Chartered
Institute of
Housing**
Cymru

Cefndir

Roedd cynllun gweithredu lefel uchel Llywodraeth Cymru ar sut y bydd yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol. Sefydlwyd panel adolygu traws-sector arbenigol i wneud y gwaith hwn a chynhyrchu papur gwyn yn amlinellu'r diwygiadau deddfwriaethol y mae eu hangen i gyflawni'r trawsnewidiad systemig angenrheidiol er mwyn sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru'n digwydd yn anaml, ei fod yn fyrhoedlog, ac nad yw'n digwydd eto.

Mae'r cynigion ar gyfer diwygio deddfwriaethol wedi'u grwpio i un o'r themâu a ganlyn:

- Diwygio'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd bresennol
- Rôl gwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal digartrefedd
- Cynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur
- Mynediad i gartrefi
- Rhoi ar waith.

Gan adlewyrchu strwythur y papur gwyn, yn y papur briffio hwn byddwn yn nodi rhywfaint o'r dystiolaeth a glywyd gan y panel adolygu arbenigol a sut mae'r ddeddfwriaeth a/neu'r polisi yn gweithio ar hyn o bryd ar gyfer pob un o'r themâu hyn. Rydym hefyd yn cynnwys y newidiadau arfaethedig, y mae Llywodraeth Cymru am eu rhoi ar waith, deddfwriaeth a pholisi ill dau, i sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru'n digwydd yn anaml, ei fod yn fyrhoedlog, ac nad yw'n digwydd eto.

Diwygio'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd graidd bresennol

Atal a rhyddhad

Ystyr digartrefedd neu fygythiad o

ddigartrefedd

Ar hyn o bryd ystyrir bod person dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'n debygol o ddod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod. Mae person yn ddigartref os nad oes ganddynt hwy a'u teulu lety lle mae hawl gyfreithiol i'w feddiannu, neu os na allant sicrhau mynediad i lety y mae ganddynt hawl i'w feddiannu. Mae'n rhaid i'r llety fod yn rhesymol i'w feddiannu ac os yw'n adeiledd symudol mae angen iddynt gael rhywle i'w osod neu ei angori. Rhaid i unrhyw lety fod yn fforddiadwy hefyd.

Mae'r cyfnod o 56 diwrnod sydd yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd yn cydweddu â'r cyfnod rhybudd sydd wedi'i gynnwys yn yr hysbysiadau a.21. Nid yw'r hysbysiadau hyn bellach yn gymwys yng Nghymru yn dilyn cyflwyno'r ddeddf rhentu cartrefi sy'n darparu cyfnod rhybudd o chwe mis ar gyfer contractau cyfnodol safonol.

Newidiadau arfaethedig

Mae person dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis, neu os yw wedi derbyn hysbysiad ceisio meddiant.

Mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio y bydd y newid hwn yn cefnogi awdurdodau tai lleol i weithredu i atal digartrefedd cyn y pwynt argyfwng. Mae hefyd yn darparu eglurder ac yn syml i denantiaid.

Anelir newid ychwanegol at y rhai sy'n byw mewn llety sy'n adeiledd symudol.

Pan ganiateir i berson breswyllo mewn ardal ond nad oes ganddo fynediad at ddŵr glân, cyfleusterau gwastraff a chyfleusterau toiled, dylent ddod o fewn y diffiniad o ddigartrefedd.

Sicrhau neu helpu sicrhau bod llety ar gael

Nid yw Deddf Tai (Cymru) 2014 yn mynnu'r defnydd o gynllun tai personol er yr anogir

ei ddefnydd o fewn arweiniad ac mae rhai awdurdodau tai lleol wedi mabwysiadu'r defnydd ohono. Gall cynlluniau tai personol wella'r profiad o ddefnyddio gwasanaethau digartrefedd lle mae gan weithwyr tai proffesiynol y gallu a'r sgiliau i'w cwblhau'n effeithiol gan sicrhau eu bod yn cydweddu ag asesiad unigol o anghenion person.

Newidiadau arfaethedig

Dyletswydd statudol i lunio cynllun tai personol yn cynnwys y camau y bydd yr awdurdod tai lleol yn eu cymryd i sicrhau llety ar gyfer yr ymgeisydd.

Dylai'r cynllun tai personol fod yn seiliedig ar asesiad trylwyr o anghenion a chofnodi'r canlyniadau y mae ymgeisydd yn dymuno eu cael ynghyd â'r camau y bydd yr ymgeisydd a'r awdurdod tai lleol ill dau'n eu cymryd i gyflawni'r canlyniadau hynny.

Dyletswydd statudol i adolygu'r asesiad anghenion a'r cynllun tai personol gyda'r ymgeisydd o fewn wyth wythnos.

Dylid adolygu cynlluniau tai personol yn rheolaidd i adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau newidiol yr ymgeisydd. Rhaid i gynlluniau tai personol fod ar gael i'r ymgeisydd fel y bo angen a bod yn rhan o reoli'r achos. Ni ddylid defnyddio cynlluniau tai personol fel rhestr wirio ond yn hytrach eu defnyddio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i gyfeirio gan drawma.

Dyletswydd statudol i gynnwys barn ymgeisydd ar ei anghenion llety mewn cynllun tai personol.

Mae angen ystyried amgylchiadau personol wrth asesu addasrwydd llety ynghyd â phrofiad o nodweddion gwarchodedig a phriodoldeb diwylliannol.

Hawl unigol i ofyn am adolygiad o benderfyniadau

Newid arfaethedig

Hawl i adolygiad mewn perthynas â'r camau rhesymol a gymerwyd i atal digartrefedd neu lety diogel, wedi'u hamlinellu yn asesiad anghenion tai'r ymgeisydd a'i gynllun tai personol.

Hawl i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety ar unrhyw adeg yn ystod meddiannaeth ymgeisydd o'r llety (dylai fod ar gael y tu hwnt i 21 diwrnod).

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig creu hawl ychwanegol i adolygu penderfyniad awdurdod tai lleol yn ei asesiad o addasrwydd llety dros dro a llety a ddarperir o dan y brif ddyletswydd tai. Rhaid i'r hawl i adolygiad fod ar gael ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod meddiannu a rhaid cyfathrebu'r hawl hon yn glir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r disgwyliad y dylai'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r adolygiad fod mor fyr â phosib, er mwyn lleihau pa mor hir y mae rhywun yn byw mewn llety anaddas. Yn ddelfrydol dylid ei gwblhau o fewn tair wythnos gydag unrhyw oedi wedi'i gytuno'n ysgrifenedig.

Y tri phrawf: angen blaenoriaethol, bwriad, a chysylltiad lleol

Mae'r profion hyn yn amrywio o ran eu cyfraddau cymhwyso a'u lle o fewn y broses asesu digartrefedd.

Angen blaenoriaethol

Newidiodd y dull heb help wrth ymateb i Covid-19 gymhwysiad y prawf angen blaenoriaethol a'i arwyddocâd. Bu beirniadaeth



o'r prawf o ran ei rôl wrth droi cefn ar rai pobl sy'n profi digartrefedd, gan nodi bod y trothwy uchel ar gyfer bod yn agored i niwed yn wendid allweddol y prawf angen blaenoriaethol.

Roedd dileu'r prawf angen blaenoriaethol yn gyfan gwbl yn argymhelliad allweddol gan y grŵp gweithredu digartrefedd. Canfu arolwg o awdurdodau lleol gefnogaeth hefyd dros ddileu'r prawf angen blaenoriaethol yn amodol ar adnoddau ychwanegol.

Newidiadau arfaethedig

Dileu angen blaenoriaethol fel nad yw'r prawf hwn bellach yn angenrheidiol er mwyn i ymgeiswyr sy'n gymwys am ddigartrefedd elwa o'r ddyletswydd llety dros dro neu'r brif ddyletswydd tai neu unrhyw ddyletswyddau cyfatebol mewn deddfwriaeth ddiwygiedig.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweld bod angen amser paratoi wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer dileu blaenoriaethol. Yn ystod yr amser paratoi, bydd y camau presennol yn parhau yn eu lle gan gynnwys pennu digartrefedd ar y stryd fel categori angen blaenoriaethol. Mae'r ymrwymiad tymor hwy i ddileu'r prawf angen blaenoriaethol yn arwydd o'r system y mae Llywodraeth Cymru ei heisiau yn y dyfodol. Ac eto, mae Llywodraeth Cymru'n glir na fydd ond yn effeithiol pan fydd y mwyafrif helaeth o ddigartrefedd yn cael ei atal ac mai ailgartrefu cyflym yw'r norm ar gyfer arferion digartrefedd ar draws Cymru.

Y prawf bwriad

Awgryma tystiolaeth mai anaml iawn y defnyddir y prawf bwriad yn ymarferol yng Nghymru. Er hynny, mae rhai awdurdodau lleol yn glir, gyda phrawf bwriad neu hebddo, bod angen ffordd o amddiffyn y system rhag cael ei chamddefnyddio a bod gan ymddygiad anonest neu dwyllodrus ganlyniadau.

Ac eto, ym marn Llywodraeth Cymru, nid yw'r prawf bwriad yn hwyluso ffordd o weithio sy'n rhoi ystyriaeth lawn i effaith amlygiad i drawma ar ymddygiad unigolyn a gall presenoldeb y prawf annog diwylliant sy'n caniatáu penderfyniad proffesiynol ynghylch pwy sy'n haeddu cefnogaeth ai beidio.

Newidiadau arfaethedig

Bod y prawf bwriad yn cael ei ddileu o deddfwriaeth ac nad yw'n cael ei gymhwyso bellach wrth benderfynu a oes gan ymgeisydd hawl i'r ddyletswydd atal a'r brif ddyletswydd tai neu unrhyw ddyletswyddau mewn deddfwriaeth newydd yn y dyfodol.

Cysylltiad lleol

Nod trosgynnol y prawf cysylltiad lleol yw sicrhau nad oes unrhyw awdurdod lleol yn ysgwyddo costau anghymesur am ailgartrefu pobl yn eu hardal a bod adnoddau lleol yn cael eu targedu at ddiwallu anghenion y boblogaeth lleol.

Ac eto, nid yw'n glir pa mor effeithiol yw'r prawf cysylltiad lleol o ran rheoli digartrefedd mewn ardal leol ynghyd â phryderon ynghylch rhai grwpiau a fydd o dan anfantais o ganlyniad i'r prawf.

Er bod awdurdodau lleol yn cydnabod yr heriau hyn, maent wedi codi pryderon y gallai dileu'r prawf gynyddu'r galw yn eu hardal ar adeg o bwysau sylweddol ar adnoddau. Ystyrir bod y prawf cysylltiad lleol yn arf rheoli achosion hanfodol a hyd nes yr ymdrinnir â'r pwysau o ran cyflenwad a'r pwysau eraill ar dai a brofir gan awdurdodau lleol, mae rôl cysylltiad lleol yn parhau i fod yn bwysig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod yna densiwn rhwng y prawf cysylltiad lleol a'i ddefnydd i reoli adnoddau a bwriad polisi cyffredinol y diwygiad deddfwriaethol i greu system sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i gyfeirio gan drawma. Fodd bynnag, yn dilyn adborth gan awdurdodau lleol, bydd y prawf yn parhau yn ei le yn y tymor byr i ganolog, er y bydd newidiadau i sicrhau y gall roi gwell cyfrif am anghenion pobl mewn rhai amgylchiadau.

Newidiadau arfaethedig

Ychwanegu grwpiau ychwanegol o bobl at y rhestr o eithriadau i ganiatáu cysylltiadau nad ydynt yn deuluol o fewn cymunedau ac i roi gwell ystyriaeth i'r rhesymau pam na all rhywun ddychwelyd i'w awdurdod cartref.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig bod y grwpiau canlynol o ymgeiswyr yn cael eu heithrio o'r darpariaethau cysylltiad lleol:

- Pobl sydd â phrofiad o ofal nad ydynt yn derbyn llety o dan ddyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol
- Cyn-filwyr a'r rhai sydd wedi cyd-fyw â chyn-filwyr yn ystod eu cyfnod yn y gwasanaeth
- Pobl sy'n destun cam-drin domestig neu gamdriniaeth a chamfanteisio arall neu sydd mewn perygl ohonynt
- Gadawyr carchar sy'n gorfod symud i ardal newydd fel rhan o'u hadsefydliad neu i'w cynorthwyo i gwrdd â chyfyngiadau.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn annog awdurdodau lleol i fabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg ar gyfer rhai grwpiau sydd mewn mwy o berygl o niwed o'r prawf cysylltiad lleol. Gall y grwpiau hyn gynnwys:

- Pobl ifanc dan 25 oed
- Aelodau o'r gymuned LHDTG+
- Ymgeiswyr anabl sydd angen mynediad at gefnogaeth benodol
- Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Pobl sy'n ceisio adferiad o gamddefnyddio sylweddau.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig bod cymhwyso'r prawf cysylltiad lleol yn parhau i fod yn ddewisol ac y caiff ei bennu cyn i'r ddyletswydd a.73 gael ei derbyn. Unwaith y caiff y ddyletswydd a.73 ei derbyn ni fydd yn bosib i'r awdurdod lleol wrthod derbyn y brif ddyletswydd tai. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi arweiniad statudol ar weithredu prawf cysylltiad lleol ar ei newydd wedd a bydd yn monitro'r defnydd ohono.

Dyletswydd statudol i ddarparu cymorth er mwyn helpu ymgeisydd i gadw llety

Dyletswydd newydd ar awdurdodau tai lleol i helpu cefnogi person i gadw llety pan fo'r ymgeisydd wedi derbyn cymorth i sicrhau llety neu pan fydd llety wedi'i gynnig a'i dderbyn gan yr ymgeisydd.

Nid dyletswydd gyffredinol mo hon. Byddai'n berthnasol dim ond i ymgeisydd y mae'r awdurdod lleol wedi asesu bod angen cymorth arno i gadw llety. Bwriad y polisi yw bod cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol cyfan, nid yr awdurdod tai lleol yn unig, gan bennu 12 mis fel amserlen ar gyfer cymorth. Er hynny, gall cymorth ddod i ben yn gynt os bydd deiliad y contract wedi'i setlo ac nad oes risg y bydd y contract yn methu.

Prawf methiant afresymol i gydweithredu

Mae Llywodraeth Cymru'n pryderu bod y prawf hwn yn groes i nodau polisi i sicrhau bod y system ddigartref yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i chyfeirio gan drawma.

Newidiadau arfaethedig

Prawf culach sy'n nodi nifer fach o seiliau cyfyngedig ac wedi'u diffinio'n glir ar gyfer y prawf methiant afresymol i gydweithredu.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y seiliau a ganlyn:

- Ymddygiad bygythiol tuag at staff awdurdodau tai lleol
- Diffyg cyswllt cyson â gwasanaethau opsiynau tai

O dan yr amgylchiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r ymgeisydd gael ei hysbysu am y penderfyniad neu'r bwriad i ystyried y prawf er mwyn galluogi'r ymgeisydd i esbonio'r ymddygiad neu pam ei fod wedi colli cysylltiad.

Cyathrebu rhwng yr awdurdod tai lleol a'r ymgeisydd

Mae'r broses o wneud cais am gymorth yn gymhleth ac yn aneglur. Oherwydd y gofynion sylweddol sydd ar wasanaethau tai a chapasiti'r gweithlu gall darparu cyathrebiadau aml a rheolaidd fod yn heriol hefyd.

Mae awdurdodau lleol wedi nodi bod y system bresennol a'r gofyniad i hysbysu ymgeiswyr ym mhob cam o'r broses yn or-fiwrocraidd ac yn rhoi straen ar adnoddau. Byddent yn croesawu symleiddio'r broses er budd cleientiaid a'u timau staff.

Mae Llywodraeth Cymru wedi clywed gan ymarferwyr eu bod wedi mabwysiadu ymagwedd ofalus oherwydd y posibilrwydd o

her gyfreithiol os ystyrir bod llythrau y maent yn eu hanfon yn anghywir. Mae hyn yn golygu bod gohebiaeth yn cael ei hanfon mewn iaith ffurfiol a all fod yn anodd ei deall a'i dilyn.

Newidiadau arfaethedig

Bydd Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn glir bod yn rhaid i awdurdodau tai lleol sicrhau eu bod yn cyfathrebu ag ymgeiswyr mewn ffordd sy'n hygyrch ac wedi'i theilwra i anghenion unrhyw unigolyn.

Mae Llywodraeth Cymru am archwilio arfer da mewn perthynas â ffyrdd amgen o gyfathrebu penderfyniadau allweddol mewn ffordd hygyrch. Gallai'r dewisiadau amgen hyn gynnwys anfon llythyr mewn iaith glir ochr yn ochr â llythyr ffurfiol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig nodi mewn deddfwriaeth bod angen i awdurdodau tai lleol gyfathrebu ag ymgeiswyr yn rheolaidd ynghylch:

- i. Cynnydd eu cais am lety tymor hwy a graddfeydd amser disgwylidig
- ii. Eu hawliau i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety ac unrhyw benderfyniadau perthnasol eraill
- iii. Cefnogaeth a allai fod ar gael i'r ymgeisydd

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig amlinellu manylion pellach yn ymwneud â chyfathrebu yn yr arweiniad.

Rôl gwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal digartrefedd

Dyletswyddau ehangach ar wasanaeth cyhoeddus Cymru i atal digartrefedd

Awgryma tystiolaeth y bydd pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref yn dod i gyswllt ag ystod o wasanaethau cyhoeddus fel mater o drefn wrth iddynt geisio deall a rheoli eu sefyllfa tai. Er hynny, nid yw gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru bob amser yn deall y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â thai ansicr a digartrefedd yn dda. O ganlyniad, gellir colli cyfleoedd i ymyrryd ac atal digartrefedd yn gynnar. Pan fydd ffactorau risg yn cael eu methu neu fod digartrefedd ei hun yn dod i'r amlwg yn rhy hwyr, rhaid i dimau awdurdodau lleol ymateb i argyfwng yn hytrach na chanolbwyntio ar y ffactorau achosol sy'n arwain at yr argyfwng.

Ceir tystiolaeth hefyd o ddiffyg cydweithredu rhwng gwasanaethau ieuchyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau digartrefedd i atal digartrefedd. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y pwynt cyrchu ac ymadael o wasanaethau ieuchyd a cymdeithasol yn aml yn bwynt hollbwysig i ymyrryd wrth atal digartrefedd.



Newidiadau arfaethedig

Y prif newid fydd dyletswydd newydd i nodi ac atgyfeirio:

Dyletswydd newydd i nodi'r rhai mewn perygl o ddigartrefedd a chyfeirio ymlaen at y rhannau penodedig o'r gwasanaeth cyhoeddus fel bod awdurdod lleol yn cael ei hysbysu cyn gynted â phosib bod person yn wynebu bygythiad o ddigartrefedd neu eisoes yn profi digartrefedd.

Bod dyletswydd ar rannau penodol o wasanaethau cyhoeddus i weithredu yn eu swyddogaethau eu hunain i gynnal contractau safonol a diogel a lleihau risg o ddigartrefedd yn cyd-fynd â'r ddyletswydd atgyfeirio.

Dyletswydd estynedig i gydweithredu er mwyn sicrhau bod nifer ehangach o wasanaethau cyhoeddus yn ymgysylltu ac yn gyfrifol am sicrhau bod digartrefedd yn digwydd yn anaml, ei fod yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto.

Cryfhau arwain digartrefedd yn strategol yn ranbarthol.

Dull cydlynu achosion statudol ar gyfer y rheini sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref ac yn profi anghenion cymorth cymhleth a lluosog.

Er mwyn i'r rhai sy'n gweithio mewn rhannau perthnasol o wasanaeth cyhoeddus Cymru nodi'r ffactorau risg r digartrefedd, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig dysgu a datblygu cenedlaethol. Y cyrff penodedig arfaethedig yng Nghymru yw:

- Adrannau gwasanaethau cymdeithasol
- Byrddau iechyd lleol gan gynnwys gofal sylfaenol
- Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

Mae'r rhain wedi'u datganoli i Gymru ac mae sgysiau'n mynd rhagddo gyda Llywodraeth y DU ar sut i weithredu dyletswydd adnabod ac atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sydd heb eu datganoli. Bydd hyn yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu archwilio memorandwm cyd-ddealltwriaeth neu ddulliau eraill o ran sut y gall gwasanaethau

lloches helpu awdurdod lleol i adnabod yn effeithiol a chymryd camau i ymdrin ag anghenion pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.

Amlinellir y trefniadau ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ystâd ddiogel yng Nghymru yn yr adran nesaf.

Cynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur

Ystyrir y grwpiau canlynol yn yr adran hon o'r papur gwyn:

- Plant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal
- Pobl sydd ag anghenion iechyd cymhleth, gan gynnwys salwch meddwl neu broblemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a'r rhai sy'n gadael yr ysbyty
- Pobl anabl
- Cyn-bersonél y lluoedd arfog
- Pobl sy'n gadael carchar
- Pobl heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus.

Plant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir mai'r awdurdod lleol, fel rhiant corfforaethol, sy'n gyfrifol am bobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n ddigartref a'r rhai sy'n gadael gofal. Ac eto, yn ôl yr adborth gan bobl ifanc, wrth iddynt nesáu at 18 oed, maent yn aml yn cael eu bownsio rhwng gwahanol adrannau.

Mae yna hefyd amrywiaeth o hawliadau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth i gartrefu pobl ifanc yn briodol pan gânt eu rhyddhau o'r system ofal. Er hynny, mae'n gyffredin i berson ifanc gael ei ryddhau o ofal i'r system ddigartrefedd. Mae hyn yn tanseilio'r ymrwymadau rhianta corfforaethol ac egwyddorion dull wedi'i gyfeirio gan drawma.

Newidiadau arfaethedig

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cryfhau'r cyfrifoldebau rhianta corfforaethol presennol er mwyn sicrhau nad yw unigolion sy'n 16 neu'n 17 oed ac yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref yn disgyn rhwng gwasanaethau. Bydd gwasanaethau cymdeithasol a digartrefedd yn gweithio mewn gwir bartneriaeth i sicrhau llety addas ac unrhyw gymorth ehangach sydd ei angen arnynt.

Dylai unrhyw berson ifanc 16 neu 17 oed sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref gyrraedd y trothwy ar gyfer asesiad gan y

Bydd yn ofynnol i awdurdodau tai lleol wneud ymholiadau i weld a oes gan ymgeisydd brofiad o ofal wrth iddynt gwblhau'r asesiad o anghenion tai a'r cynllun tai personol.

Bydd Llywodraeth Cymru'n archwilio ymhellach a ddylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i ganiatáu i bobl ifanc 16 ac 17 oed fod yn ddeiliaid contract meddiannu er mwyn ehangu eu hopsiynau llety.

Dylai unrhyw un sydd â phrofiad o ofal hefyd fod ag angen blaenoriaethol heb unrhyw derfyn oedran uchaf. Er mai dim ond os yw'r prawf angen blaenoriaethol yn dal mewn grym y bydd hyn yn berthnasol.

I bobl ifanc sy'n gadael yr ystâd ddiogel, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai deddfwriaeth ac arweiniad fod yn glir. Mae pobl ifanc 16 ac 17 oed, y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau o'r system cyfiawnder ieuenctid o fewn chwe mis, yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol fel rhan o'u cyfrifoldeb rhianta corfforaethol. Yn yr un modd, dylai pobl ifanc 18 i 21 oed sydd mewn llety cadw neu sy'n gadael gofal, neu sydd wedi gadael gofal, hefyd elwa o waith ar y cyd rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r awdurdod lleol i gefnogi a darparu llety.

Pobl sydd ag anghenion iechyd cymhleth, gan gynnwys salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau a'r rhai sy'n gadael yr ysbyty

Mae salwch meddwl yn achosi digartrefedd ac yn deillio ohono, ac mae'r profiad o salwch meddwl yn anghymesur o bresennol ymhlith y boblogaeth ddigartref. Mae lefelau defnyddio cyffuriau ac alcohol hefyd yn gymharol uchel ymhlith pobl sy'n profi digartrefedd, ac yn aml gall y rhain ddigwydd ar yr un pryd â salwch meddwl.

Awgrymodd adborth seiliedig ar arfer yn awgrymu nad yw pobl ag anghenion cymorth lluosog a chymhleth yn aml yn bodloni'r trothwy angen blaenoriaethol. At hynny, gall anghenion iechyd meddwl a defnyddio sylweddau nas diwellir gael eu dehongli fel ymddygiad annerbyniol neu wrthgymdeithasol sy'n arwain at ddileu gwasanaethau, gan gynnwys tai.

Newidiadau arfaethedig

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y gellir cyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith gwella sydd ei angen i gryfhau arfer amlddisgyblaethol rhwng gwasanaethau digartrefedd, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau heb ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Byddai'n cael ei amlinellu'n well o fewn datblygiad y strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ochr yn ochr â defnyddio'r rhaglen ariannu anghenion cymhleth.

Wrth i'r cynlluniau hyn gael eu hadolygu, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried gwelliannau i waith partneriaeth rhwng awdurdodau tai lleol a byrddau iechyd. Bydd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gyd-ariannu timau digartrefedd amlddisgyblaethol a chymorth tai gydag arbenigedd iechyd meddwl penodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig sicrhau bod asesiadau a chynlluniau allweddol fel cynlluniau triniaeth gofal yn ystyried anghenion tai a sefydlogrwydd llety person fel mater o drefn. Byddant yn gweithio gyda gwasanaethau i gryfhau'r ffordd yr ystyrir llety person fel rhan o gynllunio gofal a thriniaethau pryd bynnag y mae llety yn ffactor sy'n cyfrannu at afiechyd meddwl person neu lle bynnag y gallai llety person fod mewn perygl.

Mae rhyddhau o'r ysbyty yn darparu croestoriad arbennig o fregusrwydd a chyfle i'r rhai sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, neu i'r rhai y mae derbyn i'r ysbyty yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn dod yn ddigartref.

Mae'r broses ryddhau i ymadfer ac yna asesu'n ailffocysu llwybrau cleifion fel bod gan dimau syniad cliriach o'r anghenion a'r cymorth posib y gallai fod eu hangen ar unigolion pan gânt eu rhyddhau. Mae'n argymhell bod timau rhyddhau'n dechrau paratoi ar gyfer y rhain ar y pwynt derbyn. Mae'r newid hwn mewn ffocws i gynllunio ar gyfer rhyddhau mor gynnar â phosib yn golygu y dylai cymorth o unrhyw fath fod yn ei le ac yn barod ar gyfer yr unigolyn hwnnw pan fydd yn barod i gael ei ryddhau.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig adeiladu ar ei hymrwymiad strategol presennol i sicrhau nad oes neb yn cael ei ryddhau o'r ysbyty i sefyllfa o ddigartrefedd ac adeiladu ar waith i sefydlu'r system rhyddhau i wella ac yna asesu'r system i sicrhau bod atal digartrefedd yn cael ei ystyried wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty drwy nodi'r canlynol mewn deddfwriaeth:

- i. Gofyniad i asesiadau rhyddhau gynnwys ystyriaeth o anghenion tai cleifion
- ii. Dyletswydd ar y cyd i iechyd a'r awdurdod tai lleol gydweithio i atal digartrefedd ar adeg rhyddhau o'r ysbyty.

Goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Ceir tystiolaeth helaeth i awgrymu bod y profiad o drais yn un o achosion cyffredin digartrefedd ymhlith menywod a bod cyfran fawr o fenywod digartref wedi profi trais ar sail rhywedd. Ac eto, mae adborth sy'n seiliedig ar arfer yn awgrymu bod rhai goroeswyr yn ei chael hi'n anodd derbyn cymorth priodol ac amserol ar gyfer eu hamgylchiadau. At hynny, mae goroeswyr cam-drin yn destun amod dim hawl i arian cyhoeddus ac mae'r sefydliadau hynny sy'n eu cefnogi wedi mynegi pryder nad yw'r dyletswyddau sydd ar gael iddynt yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu deall yn dda gan yr holl weithwyr proffesiynol.

Newidiadau arfaethedig

Ehangu'r diffiniad o gam-drin domestig i gynnwys ymddygiad rheoli neu orfodi, cam-drin economaidd neu seicolegol. Y diffiniad i'w gymhwyso pan gyflawnir cam-drin gan berson sydd mewn perthynas bersonol agos â'r dioddefwr. Bydd hyn yn adlewyrchu beth sydd yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Diwygiad i sicrhau bod y brif ddyletswydd tai'n cynnwys dyletswydd i helpu'r ymgeisydd i gadw ei lety presennol os yw'n dymuno a'i fod yn ddiogel gwneud hynny.

Byddai'r opsiwn cyflawni dyletswydd ychwanegol hwn yn cael ei arwain gan farn yr ymgeisydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig bod gwasanaethau VAWDASV arbenigol yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau pan fydd y goroeswr yn cysylltu â gwasanaethau digartrefedd. Bydd hyn yn sicrhau y gwneir penderfyniadau diogel a gwybodus.

Pobl anabl

Mae'r cyflenwad tai i ddiwallu anghenion amrywiol pobl anabl yn fater sydd wedi'i waethygu gan y pwysau cyflenwad cyffredinol yn y system tai. Mae'r problemau cyflenwad hyn yn golygu bod pobl anabl yn aros am gyfnodau hir o amser i gartrefi gael eu haddasu i ddiwallu eu hanghenion. Mewn llawer o achosion gall hyn olygu arosiadau hir mewn llety nad yw'n hygyrch neu mewn llety dros dro a all gael effaith andwyol ar iechyd a lles person.

Newidiadau arfaethedig

Er mwyn gwella effeithlonrwydd dyrannu llety hygyrch, gofyniad cyfreithiol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gadw cofrestr tai hygyrch a, gyda phartneriaid sy'n dal stoc, cynnal adolygiad o'r llety hygyrch yn eu hardal.

Yn ogystal â'r gofyniad cyfreithiol newydd hwn, bwriad polisi Llywodraeth Cymru yw y bydd cynlluniau tai personol yn gwella'r gwasanaeth i ymgeiswyr anabl gan sicrhau yr ystyrir unrhyw anabledau fel rhan o'r cynlluniau.

Cyn-bersonél y lluoedd arfog

Mae digartrefedd ymhlith cyn-bersonél y lluoedd arfog yn aml yn cael ei wahanu i ddau gategori:

- Pobl sy'n gadael y lluoedd arfog yn uniongyrchol i ddigartrefedd
- Neu bobl sy'n dod yn ddigartref beth amser ar ôl gadael y lluoedd arfog

Daeth y prawf cysylltiad lleol i'r amlwg fel her arbennig a gall y rhai mewn gwasanaeth symud bob dwy flynedd ar sail ble y cânt eu lleoli. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd dangos tystiolaeth o gysylltiad lleol yn unrhyw le.

Newidiadau arfaethedig

Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r llwybr tai cenedlaethol ar gyfer cyn-aelodau o'r lluoedd arfog ac yn chwilio am ffyrdd o sicrhau y caiff ei gymhwyso'n gyson ar draws awdurdodau lleol. Mae hyn yn ychwanegol at gynigion i eithrio cyn-aelodau o'r lluoedd arfog o'r prawf cysylltiad lleol.

Pobl sy'n gadael carchar

Mae rhwystrau o hyd i ddarparu'r llwybr cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd i blant, pobl ifanc ac oedolion yn yr ystâd ddiogel, a sefydlwyd i wella cyfathrebu, a datblygu tasgluoedd atal digartrefedd gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS).

Mae'r llwybr yn rhagdybio y bydd gan dimau ailsefydlu a digartrefedd y gallu i gyflwyno ei nodau. Er hynny, mae ei weithrediad wedi bod yn anghyson ac mae carcharorion sydd newydd eu rhyddhau'n dod yn hysbys o hyd i dimau digartrefedd nad ydynt wedi derbyn unrhyw wybodaeth yn flaenorol eu bod yn cael eu rhyddhau.

Newidiadau arfaethedig

Gweithgarwch atal yn y cam derbyn

Pan fydd rhywun yn cael ei ddedfrydu i garchar am y tro cyntaf, dylid asesu yn y cam derbyn a yw'n debygol o golli unrhyw lety wrth fwrw'r ddedfryd o garchar ac os felly a yw hefyd yn debygol o golli ei eiddo ac a yw'n debygol o gael ei ryddhau a bod yn ddigartref o fewn chwe mis.

Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â HMPPS i archwilio sut y caiff y cynnig hwn ei roi ar waith yn fwyaf effeithiol.

Nid yw pobl yn y carchar yn ddigartref yn ystod cyfnod eu dedfrydau o garchar

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig nodi'n glir mewn deddfwriaeth nad yw rhywun sy'n cael ei gadw yn y ddalfa'n ddigartref.

Nid yw'r rhai yn y ddalfa'n bodloni'r meini prawf ar gyfer digartrefedd oni bai y buont eisoes yn destun ddyletswydd cyn cael eu carcharu neu fod llai na chwe mis i fynd cyn eu dyddiad rhyddhau.

Dim ond yn y carchar y gall ymgeisydd yn y carchar fod yn destun y ddyletswydd atal.

Ar y pwynt rhyddhau, byddant wedyn yn destun y brif ddyletswydd. Caniateir i awdurdod lleol atgyfeirio'r ddyletswydd atal o dan atgyfeiriad cysylltiad lleol fel bod y ddyletswydd atal a'r brif ddyletswydd tai'n cael eu cyflawni gan yr un awdurdod tai lleol.

Rhyddhau cynnar

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig deddfwriaeth sy'n nodi, pan fydd carcharor angen llety gan awdurdod tai lleol er mwyn cael ei ryddhau'n gynnar, derbyn parôl neu fechnïaeth, y dylid ystyried bod y carcharor yn ddigartref ar y dyddiad rhyddhau cynnar.

Bwriad polisi yr hyn o beth yw sicrhau bod y rhai sy'n gymwys i gael eu rhyddhau'n gynnwys yn derbyn cyfeiriad cyn iddynt gael eu rhyddhau.

Newid materol mewn amgylchiadau

Ar hyn o bryd mae Deddf Tai (Cymru) yn datgan nad oes angen asesiad newydd lle mae amgylchiadau'r ymgeisydd yr un fath ag asesiad blaenorol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ei gwneud yn glir bod yn rhaid ystyried unrhyw amser yn y ddalfa fel newid mewn amgylchiadau waeth beth fo hyd y cyfnod cadw neu a yw'n gysylltiedig â galw'n ôl i'r carchar.

Trefniadau cilyddol

Am amrywiaeth o resymau gall fod yn anodd rheoli prosesau cilyddol; gallant arwain at anghydfodau o ran y trothwy ar gyfer cychwyn y trefniadau, diffyg ymddiriedaeth a her wleidyddol leol. Mae HMPPS wedi gweithio'n ddiweddar i ddatblygu proses ar gyfer rheoli trefniadau cilyddol ac wedi ymrwymo i hwyluso'r fath drefniadau lle bo angen. Er mwyn cryfhau hyn ymhellach, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y bydd gan Weinidogion Cymru bŵer newydd i wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau cilyddol.

Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth wrth ddod o hyd i gymorth

Mae Deddf Tai (Cymru) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau y darperir gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i unrhyw un yn eu hardal.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ei gwneud yn glir bod y ddyletswydd hon yn gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol, lle mae sefydliad diogel o fewn ei ffiniau, i sicrhau y darperir gwasanaeth cynghori digonol i'r rhai sydd mewn dalfa i oedolion neu bobl ifanc.

Cadw llety

Lle bo'n bosib, ystyrir a ellir cynnig llety i berson yn y carchar gyda'r bwriad y bydd ar gael ar y pwynt rhyddhau naill ai o dan contract meddiannaeth neu gyda theulu a ffrindiau.

Dylai'r brif ddyletswydd tai fod yn berthnasol wrth ryddhau hyd yn oed os yw'r ymgeisydd wedi gwrthod llety a gynigiwyd o dan y ddyletswydd atal.

Lle bynnag y bo modd, dylid rhoi blaenoriaeth i gadw llety presennol person. Mae gwaith yn y cam derbyn yn allweddol i hyn trwy gydweithio agosach a darparu gwasanaethau cynghori mewn carchardai. Gall hyn gynnwys cyfranogiad cydlynedd arweiniol i sicrhau bod cymorth tai unigolyn yn cael ei gynllunio'n effeithiol.

Pobl ifanc

Bydd deddfwriaeth ac arweiniad yn cael eu gwneud yn glir i sicrhau y dylai unrhyw berson ifanc 16 neu 17 oed sydd i'w ryddhau o'r system cyfiawnder ieuencid dderbyn ymateb ar y cyd gan bob rhan o'r awdurdod lleol.

Adolygiad o'r llwybr cenedlaethol

Cefnogir yr holl gynigion hyn gan waith polisi ehangach gan gynnwys adolygu a diweddarau'r llwybr cenedlaethol.



Mynediad i lety

Addasrwydd

Pryd bynnag y bydd awdurdod lleol yn sicrhau llety ar gyfer ymgeisydd, rhaid i'r llety hwnnw fod yn addas i'w anghenion ac unrhyw un sy'n preswyllo â nhw. Mae ehangder o ddeddfwriaeth yn ymwneud ag addasrwydd llety. Fodd bynnag, awgryma adborth gan y rhai sydd â phrofiad o ddigartrefedd o lygad y ffynnon nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei gweithredu fel y bwriadwyd. Mae problemau o ran iechyd a diogelwch, mae pobl anabl yn teimlo nad yw eu hanabledd bob amser yn cael ei ystyried yn briodol ac mae gorlenwi'n effeithio'n anghymesur ar rai aelwydydd sydd â nodweddion gwarchodedig. At hynny, mae yna ddiffyg sylweddol o lety un ystafell wely.

Yr hyn y mae Llywodraeth Cymru eisiau ei newid

Cynigion ar gyfer gwella safonau ar unwaith

Dylid cryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol i wahardd llety sydd â pherygl categori unrhaig cael ei ystyried yn addas. Roedd hyn hefyd yn cynnwys llety y barnwyd ei fod yn anaddas i bobl fyw ynddo.

Anaml y defnyddir mannau cysgu a rennir ond cynigir bod deddfwriaeth yn ei gwneud yn glir na chaniateir byth fannau cysgu a rennir, waeth beth fo natur dros dro neu frys y llety.

Ymgorffori dewis yn y system

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd yn anodd i awdurdodau tai lleol ddarparu'r lefel o ddewis yr hoffent ei chael dros y tymor byr a'r tymor canolig. Fodd bynnag, drwy'r diwygiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru'n anelu at sicrhau system sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn fel y gall roi ystyriaeth well i anghenion unigolion.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig:

- Cyflwyno gofyniad bod yn rhaid ystyried amgylchiadau personol wrth asesu addasrwydd llety
- Cryfhau deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn glir wrth bennu addasrwydd ar y pwynt y mae'r brif ddyletswydd yn ofynnol, ni chaniateir byth llety gorllawn
- Nad yw'r gwaharddiad ar orlenwi'n berthnasol i'r ddyletswydd atal os yw hyn yn gweddu i ddymuniadau'r ymgeisydd

Gwahardd y defnydd o lety dros dro heb gymorth i bobl ifanc

Ar gyfer pobl dan 25 oed, na ddylid caniatáu defnyddio llety dros dro anaddas, gan gynnwys gwely a brecwast a llety a rennir, am unrhyw gyfnod. Mae'n rhaid i'r llety a ddarperir i'r grŵp oedran hwn fod yn llety â chymorth ac ar gael nes bod y person yn barod i symud ymlaen at fyw'n annibynnol.

Lleoliad

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig na ellir ystyried bod llety'n addas oni bai ei fod wedi'i leoli o fewn pellter teithio rhesymol i gyfleusterau addysgol, cyflogaeth, cyfrifoldebau gofalu a chyfleusterau meddygol presennol neu newydd oni bai bod yr ymgeisydd yn dymuno symud y tu hwnt i bellter teithio rhesymol.

Digartrefedd gartref

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ffurfioli cynllun digartrefedd gartref yn genedlaethol. Caiff diffiniad o ddigartrefedd gartref ei ddarparu a fydd yn nodi y dylai unrhyw unigolyn sy'n ddigartref gartref gael ei ystyried yn yr un ffordd ag unrhyw ymgeisydd arall sydd mewn llety dros dro.

Gwelliannau tymor hwy i lety dros dro

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig adolygu safonau addasrwydd bob tair blynedd er mwyn asesu a yw gwaith datblygu i gynyddu'r cyflenwad wedi galluogi i lefel uwch o safonau gofynnol gael eu cyflwyno. Gallai'r rhain gynnwys:

- Nid yw llety dros dro gorlawn byth yn addas
- P'un a ddylid pennu i ofod byw fod ar wahân i ystafelloedd gwely
- P'un a ddylid pennu safonau gofod mwy hael ar gyfer ystafelloedd gwely
- P'un a ddylid pennu safonau gofynnol mewn perthynas â mynediad preifat i gyfleusterau megis coginio ac ystafelloedd ymolchi.

Dyrannu tai cymdeithasol

Mae elfennau sylweddol o Ddeddf Tai 1996 nad ydynt yn berthnasol mwyach i'r amgylchedd tai presennol neu lle nad yw'r ddeddfwriaeth yn ddigonol i fynd i'r afael ag anghenion tai'r byd modern. Ceir pryder hefyd nad yw'r amod ymddygiad annerbyniol presennol yn caniatáu ystyriaeth briodol o newidiadau mewn ymddygiad neu gamau lliniaru a fydd yn lleihau'r risg y bydd yr ymddygiad yn digwydd eto.

Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn o ran pwy sy'n cael ffafriaeth ychwanegol ar eu rhestrau aros. Mae pryderon wedi'u codi ynghylch y ffaith nad yw'n ymddangos y rhoddir blaenoriaeth uwch bob amser i roi llety i'r rhai sydd heb gartref. Ac eto, yn aml mae aelwydydd digartref yn cael eu heithrio o'r band blaenoriaeth uchaf er mwyn sicrhau nad yw digartrefedd yn cael ei weld fel llwybr uniongyrchol i dai cymdeithasol, gan gyflwyno cymhelliant gwrthnysig i'r system tai cymdeithasol.

Newidiadau arfaethedig

Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC) yn bartner hanfodol wrth atal digartrefedd ac mae llawer o enghreifftiau o'r perthnasoedd gwaith cryfion rhwng LCC ac awdurdodau lleol a'r rôl ehangach y mae LCC yn ei chwarae wrth liniaru digartrefedd. Fodd bynnag, awgryma tystiolaeth a glywyd gan y panel adolygu arbenigol y gellir gwneud mwy. Felly, yn unol ag argymhellion a wnaed gan y panel adolygu arbenigol, mae Llywodraeth Cymru'n

cynnig diwygio deddfwriaethol i ganiatáu i awdurdodau lleol fynnu i LCC ailgartrefu atgyfeiriadau digartrefedd statudol, o fewn cyfnod penodol, ac eithrio o dan amgylchiadau penodol. Wrth i ymgynghori a gwaith datblygu fynd rhagddo ar y cynnig hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yr effaith bosib ar LCC. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan nad yw'n bwriadu gosod gofynion deddfwriaethol ar LCC yng Nghymru sy'n arwain at eu hailddosbarthu'n gyrrff cyhoeddus.

Prawf ymddygiad annerbyniol

Y dylai'r prawf ymddygiad annerbyniol presennol fod yn berthnasol dim ond:

- Os dyfarnwyd ymgeisydd yn euog o ymddygiad annerbyniol sy'n ddigonol i dorri a.55 y ddeddf rhentu cartrefi fel ei fod yn arwain at orchymyn meddiannu llwyr
- Ar adeg ystyried y cais, y mae'r ymgeisydd yn parhau i fod yn anaddas i fod yn denant oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

Bydd arweiniad pellach yn cael ei ddatblygu ynghylch cymhwyso'r prawf ymddygiad derbyniol.

Pŵer i dynnu pobl nad oes angen tai arnynt oddi ar y rhestr aros

Cynnig i roi'r pŵer i awdurdodau tai lleol dynnu pobl heb unrhyw angen am dai oddi ar y rhestr aros.

Bydd y pŵer hwn yn ganiataol yn unig. Bydd awdurdodau lleol yn cadw'r disgresiwn i dderbyn pob ymgeisydd ar eu rhestr aros. Bydd diffiniad o angen tai'n cael ei ddarparu yn yr arweiniad, a bydd hwn hefyd yn nodi eithriadau.

Darparu ffafriaeth ychwanegol

Cynnig i neilltuo ffafriaeth ychwanegol i'r rhai sy'n ddigartref ac y mae dyletswydd digartrefedd statudol yn ddyledus iddynt dros grwpiau blaenoriaeth eraill yr ystyrir bod ganddynt angen tai brys.

Ni fydd hyn yn diwygio'r pum grŵp sy'n cael ffafriaeth resymol o fewn cynlluniau dyrannu ar hyn o bryd, ond bydd yn rhagnodi o ran blaenoriaethu aelwydydd digartref o fewn y pum grŵp hyn. Nid cynnig polisi hirdymor mo hwn. Wrth i'r newid i ailgartrefu cyflym barhau mae'n annhebygol y bydd angen i awdurdodau lleol ddyrannu ffafriaeth ychwanegol. Gan hynny, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried terfyn amser ar gyfer y cynnig hwn.

Mae pobl sy'n gadael gofal neu'r rhai sydd â phrofiad o ofal mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig bod ymadawyr gofal sy'n ddigartref hefyd yn derbyn ffafriaeth ychwanegol o fewn cynlluniau dyrannu presennol.

Gofyniad statudol ar gyfer cofrestr tai gyffredin/polisiâu dyrannu cyffredin

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eisoes yn gweithredu cofrestr tai gyffredin a pholisiâu dyrannu cyffredin. Mae'n bwysig sicrhau bod y gwasanaeth hwn ar gael ym mhob rhan o Gymru. Bwriad y polisi yw sefydlu ymagwedd gyson a gwella effeithlonrwydd dyraniadau. Mae mabwysiadu cofrestr tai gyffredin hefyd yn cefnogi cynigion eraill ynghylch dyraniadau tai cymdeithasol.

Cyflwyno prawf ystrywio bwriadol

Bydd y prawf hwn ond yn berthnasol yng ngham dyrannu'r broses ddigartrefedd a'i fwriad yw cyfyngu neu ddileu unrhyw flaenoriaeth ychwanegol a roddir i ymgeisydd digartref y nodwyd ei fod wedi ymwneud ag ystrywio'r system ddigartrefedd yn fwriadol. Ni fydd yn effeithio ar hawliau'r rhai sy'n gwneud cais am gymorth tai.

Opsiynau tai ychwanegol ar gyfer cyflawni'r brif ddyletswydd tai

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ystod gynyddol o opsiynau tai y gall y brif ddyletswydd digartrefedd ddod i ben drwyddynt. Gall y rhain gynnwys tai llety â chymorth, llety â chymorth neu ddychwelyd i lety blaenorol. Byddai angen i unrhyw dai a ddarperir o dan yr opsiynau tai estynedig fod yn addas ar gyfer yr ymgeisydd ac ar gael i'w meddiannu am o leiaf 12 mis.

Rhoi ar waith

Mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio defnyddio'r cyfnod ymgynghori i brofi dulliau, amserlen, adnoddau a gofynion ar gyfer gweithredu ac yn cynllunio hyn gyda rhanddeiliaid. Nid yw rheoleiddiwr newydd yn cael ei sefydlu gan fod Llywodraeth Cymru o'r farn y gellir cyflawni'r un canlyniadau gan ddefnyddio swyddogaethau rheoleiddio ehangach, a gwelliannau casglu a dadansoddi data. Bydd mecanweithiau hefyd ar gyfer sicrhau cysondeb drwy gymorth corfforaethol neu gymorth gan gymheiriaid i staff awdurdodau lleol. Teimlir y bydd yr opsiynau hyn yn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau presennol a'u bod yn opsiwn mwy fforddiadwy.

Newidiadau a diwygiadau arfaethedig

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried a fydd yn briodol gwneud newidiadau i'r safonau rheoleiddio sy'n berthnasol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn annog a hyd yn oed ennyn mwy o ymrwymiad i roi diwedd ar ddigartrefedd a monitro perfformiad a chyflawniad.

Bydd swyddogaethau arolygiaethau presennol yng Nghymru'n cael eu harchwilio i weld pa rôl y gall y sefydliadau hyn ei chwarae wrth gyflawni cyfrifoldeb ehangach dros atal digartrefedd ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu ac yn ystyried a oes angen pwerau ychwanegol ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn bodloni ei nodau, gan gynnwys pwerau posibl i wneud cyfarwyddiadau i orfodi awdurdod lleol i fodloni'r gofynion yn y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig. Os daw'n amlwg bod awdurdod lleol yn methu â chyflwyno gofynion y bil arfaethedig neu'n methu â darparu gwasanaeth at y safon ddisgwyliedig, gall Llywodraeth Cymru wedyn ymyrryd i gefnogi ac, os oes angen, herio a chyfarwyddo gwelliant.

Ffyrdd y gellir cynnwys barn pobl â phrofiad o lygad y ffynnon wrth gyfeirio gwaith yn y dyfodol a dealltwriaeth o sut mae systemau digartrefedd yn gweithio'n ymarferol. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'n partneriaid arbenigol.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud gwaith i wella prosesau casglu data parhaus ar draws y sector tai a digartrefedd.

Ein barn gychwynnol

Yr hyn sy'n glir o'r ddogfen ymgynghori hon yw ei bod yn cynnig newidiadau eang i'r system digartrefedd a dyraniadau yng Nghymru gan adeiladu ar argymhellion y panel adolygu arbenigol. Mae'r papur gwyn yn cynnig newidiadau sylweddol a fydd, gobeithio, yn gwella'r broses o wneud cais yn achos digartrefedd a sicrhau cartref i fwy ynddo. Cytunwn yn llwyr fod angen newid pellgyrhaeddol yng Nghymru i sicrhau bod digartrefedd yn digwydd yn anaml, ei fod yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Ac eto, mae yna rai effeithiau neu ganlyniadau anfwriadol y mae angen eu hystyried er mwyn i'r system ddigartrefedd a dyraniadau newydd yng Nghymru fod yn deg i'r rhai sydd angen cymorth digartrefedd, tenantiaid tai cymdeithasol presennol a'r gweithwyr tai proffesiynol hynny sy'n rhoi'r ddeddfwriaeth newydd ar waith.

Ni fyddai neb yn anghytuno â chael gwared ar y profion angen blaenoriaethol a bwriad a'r ddyletswydd rhyddhad. Bydd hyn yn gwneud y system ddigartrefedd yn fwy agored ac yn haws i ymgeiswyr ei llywio. Ac eto, nid yw'n ymddangos bod unrhyw beth wedi'i ysgrifennu mewn deddfwriaeth neu gynigion polisi i ddatrys y broblem o rai ymgeiswyr digartref yn dod i'r amlwg yn rhy hwyr i waith atal gael ei ystyried. Er y cynigir archwilio ystrywio bwriadol mewn perthynas â dyraniadau, a oes yna gymhelliant gwrthnysig bellach i beidio â cheisio cymorth tan y funud olaf gyda gwarant y caiff prif ddyletswydd tai ei derbyn? Rydym yn siŵr nad dyma yw bwriad Llywodraeth Cymru ac mae'n debygol mai dim ond mân addasiad sydd ei angen i wella ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ac ymestyn cwmpas y prawf ystrywio bwriadol. Felly, gellir ei gymhwyso pan ellir dangos tystiolaeth bod ymgeisydd wedi aros yn fwriadol drwy gydol ei gyfnod rhybudd cyn gwneud cais am gymorth digartrefedd er gwaethaf cynigion o gymorth gan wasanaethau.

Mae gennym hefyd bryderon ynghylch y lefelau o fiwrocratiaeth sy'n parhau yn y

system ddigartrefedd er i Lywodraeth Cymru gydnabod bod hyn yn broblem i awdurdodau lleol. Mae ymchwil a wnaed i fiwrocratiaeth wedi dangos y gall ddadrymuso unigolion sy'n gweithredu deddfwriaeth ac y gall arwain at ddefnyddio mwy o ddisgresiwn i oresgyn y baich gweinyddol ychwanegol all gael ei gynhyrchu. Cytunwn yn llwyr fod angen i gyfathrebiadau ag ymgeiswyr fod yn fwy tryloyw. Ac eto, pan fydd awdurdodau lleol wedi ceisio gwneud hyn yn y gorffennol mae ymgeiswyr wedi ceisio ymyrraeth gyfreithiol gan nad yw eu hawliau'n cael eu cyfathrebu mewn modd digon technegol. Hoffem weld yr holl randdeiliaid yn gweithio ar y cyd i ddod o hyd i ateb sy'n sicrhau bod cyfathrebu ag ymgeiswyr wedi'i bersonoli ac yn hawdd ei ddeall ac y gall hefyd fodloni gofynion cyfreithiol, gan leihau'r tebygolrwydd o adolygiad cyfreithiol. Er yn y pen draw efallai mai'r ateb fydd mwy o adnoddau ar gyfer gwasanaethau digartrefedd statudol i sicrhau bod digon o aelodau yn y tîm i ddarparu'r cyfathrebiadau wedi'u cyfeirio gan drawma sy'n canolbwyntio ar y person a gynigir yn y papur gwyn.

Nid yw polisïau dyraniadau ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfer ymgeiswyr sy'n ceisio eu tenantiaeth tai cymdeithasol gyntaf yn unig. Cânt eu defnyddio hefyd i sicrhau y gall tenantiaid presennol symud i lety mwy addas wrth i'w hanghenion ac anghenion eu haelwyd newid. Mae'r cynnig i sicrhau y rhoddir y lefel uchaf o flaenoriaeth i aelwydydd digartref ar restrau aros yn safbwynt polisi dealladwy yn erbyn cefndir o gynnydd yn y niferoedd sydd mewn llety dros dro. Fodd bynnag, mae angen i ni sicrhau hefyd y gall landlordiaid cymdeithasol ddarparu llety addas ar gyfer eu tenantiaid presennol hefyd. Oni bai bod y ddarpariaeth hon yn cael ei rhoi ar waith, gallai olygu bod tenant yn gwneud cais digartrefedd am fod ei anghenion meddygol neu faint ei deulu'n golygu bod ei gartref presennol yn anaddas. Byddai hyn wedyn yn ei gwneud yn afresymol i feddiannu eu cartref gan arwain at fygythiad o ddigartrefedd yn ôl diffiniadau presennol o ddigartrefedd. A oes angen i ni sicrhau hefyd bod canran o'r stoc tai cymdeithasol bob amser wedi'i neilltuo ar gyfer tenantiaid presennol er mwyn sicrhau symudiad yn y system sy'n debygol o ryddhau eiddo o'r math a'r maint cywir i ddarparu cartref ar gyfer aelwyd ddigartref?

Mae niferoedd cynyddol mewn llety dros dro a lefelau digartrefedd cynyddol yng Nghymru yn ganlyniad gweladwy i system tai sydd mewn argyfwng. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r papur gwyn i amlinellu cynigion i sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru'n digwydd yn anaml, ei fod yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Er i ni gefnogi'r mesurau a amlinellir yn y papur gwyn hwn a chydabod nad yw ymdrin â digartrefedd yn ymwneud â'r brics a'r mortar yn unig, ni ellir gwadu mai'r tangyflenwad difrifol o dai cymdeithasol fforddiadwy ac yn y lleoedd iawn sydd wrth wraidd y broblem systemig a wynebwn o ran digartrefedd dros y degawdau diwethaf. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i ymdrin â'r mater penodol hwn drwy ei hymrwymiad i gyflenwi 20,000 o gartrefi carbon isel newydd am rent cymdeithasol dros oes y Senedd hon, ond mae gan CIH Cymru farn wahanol ynghylch sut i ddatrys yr argyfwng tai presennol a sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru'n digwydd yn anaml, ei fod yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Mae angen i ni sicrhau bod hawl i gartref digonol

wedi'i hymgorffori yn y gyfraith. Rhaid i ddeddfu dros hawl fod yn fan cychwyn ar daith sy'n gweld ymrwymiad i lefel y buddsoddiad angenrheidiol sy'n adlewyrchu difrifoldeb yr argyfwng tai a wynebwn ar hyn o bryd, gan sicrhau bod holl wasanaethau cyhoeddus Cymru'n cydweithio i sicrhau y gall unigolion a'u teuluoedd gael mynediad i gartref diogel, cadarn a fforddiadwy. Dylai'r ymagwedd y mae Llywodraeth Cymru'n ei amlinellu yn y papur gwyn hwn fod yn un cam, er yn gam pwysig iawn, ar y ffordd i wireddu'n raddol yr hawl i bawb yng Nghymru gael cartref digonol.

Y camau nesaf

Gellir dod o hyd i'r papur gwyn llawn a chwestiynau'r ymgynghoriad [yma](#) a bydd ein hymateb terfynol yn cael ei gyflwyno erbyn 16 Ionawr. Byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth gan aelodau i'n helpu cyfeirio a siapio ein cyfraniad.

Cysylltwch â'n rheolwr polisi a materion cyhoeddus [Cerys Clark](#) gydag unrhyw feddyliau sy'n berthnasol i'r gwaith hwn.

